PARHEWCH I DYFU YN EICH PERTHYNAS Â DUW

Nodyn i'r siaradwr:
Mae'n bosibl inni dyfu yn ein perthynas â Duw am byth. Er mwyn gwneud hynny rhaid inni (1) ddeall ein cydwybod ac ymateb iddi a (2) tyfu i aeddfedrwydd Cristnogol

MAE'N RHESYMOL INNI DDYMUNO PERTHYNAS DDA Â DUW (6 mun.)

Mor hawdd ydi bod â pherthynas gariadus â rhywun caredig, hael, ac sydd â diddordeb ynom ni!

Medrwn weld fod perthynas dda â Duw yn ddymunol

Wrth astudio Gair Duw, 'rydym wedi dod i 'nabod llawer o'i briodoleddau aruchel

Gosododd ei roddion materol ac ysbrydol i'r bodau dynol cyntaf sail ar gyfer y berthynas dda hon

Gosododd Jehofah ddyn mewn amgylchedd perffaith, gyda hyder am fywyd diddiwedd (Gen 2:9, 15-18)

Creodd ein rhieni gwreiddiol ar ei ddelw (Darllen Genesis 1:27) (*w*82 8/1 12)

Rhoddodd iddynt briodoleddau megis cariad a chyfiawnder, yn adlewyrchiad ohono'i hun

Wrth iddynt ddatblygu ac ehangu nodweddion Duw yn eu bywydau, byddent yn tyfu yn eu perthynas ag ef

Allwedd i'w perthynas nhw â Jehofah—ac i'n perthynas ninnau â Jehofah—yw'r gydwybod mae Duw wed'i rhoi inni (*w*72 557)

Er nad ydym wedi byw yn y Baradwys a gafodd Adda, gallwn weld mor ddymunol fyddai ei chael ac mor wych fyddai cael perthynas gynnes, agos â'n Creawdwr

'Rydym wedi dysgu yr adferir Paradwys cyn bo hir; mae gennym y gobaith o fod yn feibion Duw

Hyd yn oed 'nawr mae llawer y gallwn ei wneud i werthfawrogi a datblygu'n perthynas â Duw

Fe fyddwn yn ystyried dwy agwedd hanfodol: defnyddio'n cydwybod, a'n tyfiant i aeddfedrwydd Cristnogol

FE DDYLAI'N CYDWYBOD EIN CYNORTHWYO I GAEL PERTHYNAS Â DUW (12 mun.)

'Rydym wedi etifeddu cynneddf y gydwybod oddi wrth Adda (Darllen Rhufeiniaid 2:14, 15) (*it*-1 501 ¶1)

Gellir gweld tystiolaeth o hyn heddiw; mae llawer "yn naturiol" yn osgoi llofruddio, godineb, trais, a drygioni arall

Mae tystiolaeth Feiblaidd ac an-Feiblaidd (*w*75 209-10; *it*-2 966 ¶1, 2)

Mae Duw yn ymwneud â Christnogion mewn modd sy'n apelio at ein cydwybod ac yn ein hannog i'w defnyddio hi (1Pedr 3:16)

Mae'r Beibl yn dangos yn bendant fod rhai pethau yn anghywir, gan roi deddfau i'w gwahardd

Condemnir godineb, llofruddio, a bwyta gwaed (Act 15:29; 1Cor. 6:9, 10)

Hyd yn oed â deddfau arbennig o'r fath, fe weithredir y gydwybod

Beth wna person pan na fydd bodau dynol eraill yn ei wylio?

Rhaid inni ufuddhau i'r deddfau hyn er mwyn cael perthynas dda â Duw, ond mae angen mwy na hynny

Wrth iddo adael i Gristnogion wneud penderfyniadau ynglŷn â'r rhelyw o bethau ar sail egwyddorion, mae Duw yn galw am ddefnydd ehangach o'r gydwybod a gadael i berson ddatgelu'r hyn sydd yn ei galon (*w*76 528-9)

Enghreifftiau o egwyddorion perthnasol yw: peidio â charu'r byd, peidio â thramgwyddo eraill, parchu penteuluaeth, dilyn heddwch, osgoi cystadleuaeth, parchu sancteiddrwydd bywyd

Mae cymhwyso egwyddorion Beiblaidd yn golygu mwy na dysgu cyfraith a'i chadw

Rhaid defnyddio gwybodaeth, deall, dirnadaeth a doethineb

Mae nifer o ffactorau i'w hystyried wrth wynebu mater y gydwybod (*w*82 7/15 22-7)

Beth ddywed yr Ysgrythurau? (Efallai y bydd angen gwneud ymchwil)

Sut bydd fy mhenderfyniad yn effeithio ar eraill? (1Cor. 10:32)

Sut bydd e'n effeithio arnaf fi? (Rhuf 14:22, 23)

Myfyriwch ar bigiadau'r gydwybod, gan geisio'r hyn fydd yn eich gadael â chydwybod lân

Medrwn gael ein helpu gan y cyfan a wyddom am Dduw—ei bersonoliaeth, ei ffyrdd, ei safonau, a'i ymwneud yn y gorffennol

Felly deuwn i adlewyrchu "delw" Duw yn ehangach (Col 3:10)

Mae byw yn ôl egwyddorion a chydwybod hefyd yn dangos cymhelliant eich calon

Ydych chi'n dymuno ymateb i'ch cydwybod ac i egwyddorion y Beibl? Yn eich calon, ydych chi'n dymuno adlewyrchu delw Duw yn eich ymwneud ag eraill?

Yn amlwg, mae perthynas person â Duw yn tyfu wrth iddo ddatblygu cymhelliant calon da, yn ymateb i'r gydwybod hyfforddedig a gwybodaeth o egwyddorion y Beibl

Cymorth arall i berthynas cynyddol â Duw yw aeddfedrwydd Cristnogol; sut hynny?

AEDDFEDRWYDD CRISTNOGOL YN BWYSIG ER MWYN PERTHYNAS Â DUW (17 mun.)

Yn yr ystyr gyffredin, person "aeddfed" yw oedolyn, wedi cyrraedd llawn dwf yn gorfforol

Gall dyn barhau i wneud cynnydd, ac ennill gwybodaeth, profiad, gwerthfawrogiad

Mae twf Cristnogol o blentyndod ysbrydol i fod yn oedolyn yn effeithio ar eich perthynas â Duw

Sut mae adnabod anaeddfedrwydd ysbrydol? (1Cor 3:1-4; Eff 4:11-16; *w*74 109-10)

Mae "babanod" ysbrydol yn ansefydlog, yn "gnawdol" o ran eu ffordd o feddwl (*w*85 5/1 9-10)

Y Cristion aeddfed yw hwnnw sy'n derbyn holl ystod gwirionedd Cristnogol, gan geisio byw felly (*w*74 110-12; *w*85 5/1 10-12)

Mae'r angen am hyn yn amlwg oddi wrth sylwadau yn Hebreaid 5:11–6:2 (Darllen) (*w*81 10/1 9)

'Roedd rhai Cristnogion Hebreig yn parhau yn fabanod yn ysbrydol

’Roedd angen arnynt i sylweddoli sut yr oedd gwirioneddau’r Beibl yn effeithio ar eu holl fywyd—gan ddylanwadu ar eu ffordd o feddwl, eu chwantau, eu penderfyniadau

Trwy “ymarfer” ’roedd angen hyfforddi eu synhwyrau deallusol i wahaniaethu rhwng da a drwg, ennill profiad

Mae ymgyrraedd at aeddfedrwydd Cristnogol o hyd yn golygu derbyn holl ystod y gwirionedd a’i gymhwyso

Mae’r Cristion aeddfed yn cymhwyso gwirionedd y Beibl yn ei fywyd beunyddiol, yn ymdrechu i adlewyrchu delw Duw yn llawn

Fe ŵyr mai egwyddorion ddylai fod yn llywodraethu hyd yn oed pan fo hi’n anodd; mae’n gweithredu felly

Mae Cristion aeddfed yn ymateb i bigiadau ei gydwybod; mae’n ymdrechu i unioni ei ffordd o feddwl a’i weithredoedd yn ôl egwyddorion y Beibl a’r cyfan a ŵyr am Dduw

Mae’n cael boddhad o hyn, o wybod fod ei berthynas â Duw yn gwella

Mae llawer yma heddiw yn gwneud hyn, gan roi tystiolaeth eu bod nhw’n Gristnogion aeddfed; er enghraifft:

Mae’r wraig yn dangos cytundeb ag egwyddor penteuluaeth drwy geisio arweiniad ei gŵr

’Dyw ei bod hi’n ceisio arweiniad ei gŵr ddim yn dangos anaeddfedrwydd ond yn dystiolaeth bellach ei bod hi’n aeddfed dderbyn holl ystod gwirionedd y Beibl

Gall cais brawd neu chwaer Cristnogol am awgrymiadau gan henuriad arddangos aeddfedrwydd

Hawdd gwahaniaethu hyn oddi wrth y “baban” nad yw’n dymuno adlewyrchu delw Duw, ac sy’n tueddu i anwybyddu ei gydwybod neu ei rhoi i farwolaeth, neu sydd am i eraill benderfynu drosto (*w*78 4/1 19 ¶20)

Fe welwn amrywiaeth hyd yn oed ymhlith Cristnogion aeddfed (*w*71 664-5; *it*-2 355)

’Dyw pawb sy’n gorfforol aeddfed ddim yr un fath; maen’ nhw’n amrywio o ran maint, personoliaeth, a nodweddion

’Dyw’r ffaith fod un yn fyrrach na’r llall ddim yn brawf o anaeddfedrwydd; gall y ddau fod yn oedolion, yn aeddfed

’Dyw pob Cristion aeddfed ddim yn amlygu nodweddion yn yr un ffyrdd nac i’r un graddau (Eff 4:15, 16)

Gall fod un yn dangos mwy o haelioni neu letygarwch na’r llall, a all fod yn amyneddgar iawn ac yn addfwyn

Osgowch labelu person yn anaeddfed dim ond am fod hwnnw’n wahanol yn y ffordd mae e neu hi’n cyfrannu fel Cristion aeddfed at adeiladu’r gynulleidfa Gristnogol

Gall Cristion aeddfed weithiau ddefnyddio barn ansicr; ’dyw hyn ddim yn golygu ei fod e ’nawr yn anaeddfed

Mae’n wir y gall person sy’n newydd yn y gwirionedd ac nad yw eto’n aeddfed—heb ddangos tystiolaeth ei fod yn llawn dderbyn gwirionedd y Beibl—ddangos hynny drwy ddefnyddio barn ansicr yn aml

Weithiau fe all Cristion aeddfed hyd yn oed ddangos barn ansicr neu dduwiolfrydedd gwannach nag arfer

Oherwydd iddo ddangos barn ansicr, ’roedd angen ceryddu Pedr (Gal 2:11-14; *g*82 9/8 27)

Wedyn fe ddangosodd Pedr galon dda, cydwybod mwy effro, a’i fod yn derbyn holl ystod y gwirionedd drwy gymhwyso’r cyngor a pharhau fel Cristion aeddfed, apostol (*w*76 12/1 725)

Mae aeddfedrwydd yn helpu’ch perthynas chi â Duw, er mwyn i chwi geisio adlewyrchu ei “ddelw” yn llawn

’Dydych chi ddim yn troi eich cefn ar unrhyw ran o wirionedd Gristnogol a’i gymhwysiad

PARHEWCH I DYFU YN EICH PERTHYNAS Â DUW (10 mun.)

’Dyw cyrraedd aeddfedrwydd Cristnogol a meddu ar gydwybod finiocach ddim yn terfynu tyfiant person

Anogwyd Timotheus i barhau i wneud cynnydd (Darllen 1 Timotheus 4:15)

Yn ddiamau, ’roedd Timotheus eisoes yn Gristion aeddfed; cynrychiolodd y corff llywodraethol Cristnogol wrth wneud apwyntiadau (Phil 2:19, 20; 1Tim 3:1-13; 5:22)

Fe allai barhau i dyfu yn ei berthynas â Duw drwy adlewyrchu delw Duw yn llawnach yn ei ymddygiad, ei leferydd, a’i agwedd (1Tim 4:12)

Medrwn ninnau dyfu yn ein perthynas â Duw, gan wneud ein cynnydd yn amlwg (*w*74 114-19)

Ymdrechwch i dyfu o ran gwybodaeth, deall, a doethineb (*w*85 5/1 13-17)

Parhewch i wneud cynnydd wrth gynhyrchu ffrwythau ysbryd Duw yn fwy amlwg

Ceisiwch wneud cynnydd wrth gyflawni eich cyfrifoldebau fel aelod o deulu

Ymdrechwch i wneud cynnydd wrth arddangos cydwybod ac aeddfedrwydd Cristnogol

Ychwanegwch yn gyson at eich gwybodaeth o Dduw a’ch gwerthfawrogiad o’i ffyrdd (Salmau 25:4, 5)

Po fwyaf o gynnydd a wnewch yn y pethau hyn, y cryfaf a mwyaf agos fydd eich perthynas â Duw

Gall tyfiant yn ein perthynas barhau yn ddiddiwedd

Mae tyfiant diddiwedd yn bosib’ oherwydd fod bywyd tragwyddol ar gael i’r rhai sydd â pherthynas â Duw

Mae’n bosib’ hefyd am nad oes dim diwedd i’r hyn a fedrwn ei ddysgu am Dduw (Rhuf 11:33)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. ’Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)